

Effaith Economaidd-Gymdeithasol y Sector Cymdeithasau Tai a Sefydliadau Cymunedol Cydfuddiannol 2017/18



Paratowyd ar gyfer:
Cartrefi Cymunedol Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research / Houston
Economic Consulting

Manylion Cyswllt

Cysylltiadau Asiantaeth: Chris Timmins - Beaufort Research, Dominic Houston - Houston Consulting

Prosiect: B01819

Date: November 2018

Beaufort Research

2 Museum Place
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565

Ffacs: (029) 2037 0600

E-bost: enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

© Beaufort Research Cyf 2018



Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	4
PRIF ADRODDIAD	8
1. Effaith Economaidd Cymdeithasau Tai yng Nghymru	8
1.1 Cefndir.....	8
1.2 Ffynonellau effaith economaidd	8
1.3 Mesurau a mathau faith economaidd.....	8
1.4 Methodoleg effaith economaidd	9
1.5 Amcangyfrif o effeithiau anuniongyrchol cyflenwyr ac incwm a gymhellir	11
1.6 Effeithiau economaidd anuniongyrchol gweithgaredd cymdeithasau tai yn 2017/18	12
1.7 Cyfanswm effeithiau economaidd gweithgaredd y sector cymdeithasau tai 2017/18.....	12
2. Cyfres Amser 10 Mlynedd	14
3. Arolygon Cartrefi Ychwanegol	18

Atodiad 1

Atodiad 2 – 4

Atodiad 5

Atodiad 6

Arolwg gwariant

Cartrefi ychwanegol 2017/2018 yn ôl awdurdod lleol

Cartrefi ychwanegol arfaethedig 2018/19 yn ôl awdurdod lleol

Amcangyfrif o incwm Llywodraeth Cymru o gymharu ag incwm arall

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn amcangyfrif effaith economaidd aelodaeth CHC yn nhermau effaith gwerth ychwanegol gros a swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae hefyd yn darparu cyfres amser o 2008/09 i 2017/18.

Mae cymdeithasau tai yn cyfeirio at sefydliadau cymunedol cydfuddiannol, trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr (LSVT) a chymdeithasau tai traddodiadol.

Mae CHC yn cynrychioli dros 70 o gymdeithasau tai a sefydliadau cymunedol cydfuddiannol di-elw yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o ran nifer y cartrefi a gaiff eu rheoli, yr ystod gwasanaethau a ddarperir a'r ardalodd daearyddol lle gweithredant. Yn 2017/18 roedd gan gymdeithasau tai raglen ddatblygu weithgar. Bob blwyddyn, mae aelodau CHC yn adrodd y nifer o gartrefi newydd a ddarperir ac mae Tabl E1 yn cynnwys y wybodaeth ar gyfer 2017/2018.

Tabl E1 Cartrefi ychwanegol a ddarparwyd gan aelodau CHC 2009 - 2018

	Cartrefi ychwanegol
2009	2142
2010	2286
2011	2033
2012	1973
2013	1862
2014	1850
2015	1923
2016	2322
2017	2533
2018	1876

Mae'r 1,876 o gartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn 2017-18 yn ostyngiad ar y ddwy flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dywedodd aelodau eu bod yn disgwyl i 3,045 o gartrefi ychwanegol fod ar gael yn 2018/19 ac mae hyn yn rhoi cymdeithasau tai ar y targed i gyflawni'r sector o 12,500 o gartrefi ychwanegol a nodwyd dros gyfnod o bum mlynedd fel rhan o'r cytundeb tai a lofnodwyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CHC.

Yn ogystal â rhoi adroddiad ar gartrefi ychwanegol, mae holiaduron yr arolwg hefyd yn adrodd ar ffynonellau incwm. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg o gyfanswm incwm y sector o tua £1.2bn, bod cymdeithasau tai yn derbyn tua £122m gan Lywodraeth Cymru fel grant tai cymdeithasol. Yn ychwanegol, mae cymdeithasau tai yn derbyn tua £60m mewn grantiau eraill, gyda 92% o hynny'n dod gan Lywodraeth Cymru a 8% o ffynonellau eraill. Daw gweddill incwm cymdeithasau tai o ffynonellau fel renti, gwerthu, benthyca yn ogystal â gweithgareddau eraill fel taliadau gwasanaeth ac yn y blaen. Gellir mynegi'r berthynas rhwng yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o gymharu gyda ffynonellau eraill fel bod cymdeithasau tai yn dod â £5.69 am bob £1 a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

Asesiad o'r Effaith Economaidd 2017/18

Yn 2017/18 gwariodd cymdeithasau tai Cymru amcangyfrif o £1,212m (yn cynnwys gwariant gweithredol, costau staffio, gwariant ar adeiladu a gwaith cynnal a chadw/gwaith mawr). Mae Tabl E2 yn rhoi adroddiad am y rhan o'r gwariant hwn a *gadwyd* yng Nghymru.

Tabl E2 Amcangyfrif o wariant gros cymdeithasau tai yng Nghymru yn ôl categori 2017/18

	Gwariant net yng Nghymru £m	Gwariant categori fel % o holl wariant cymdeithasau tai Cymru
Costau llafur uniongyrchol (yn cynnwys staff dros dro etc)	358.6	35.2%
Adeiladu	263.5	25.8%
Cynnal a chadw ac atgyweirio	217.4	21.3%
Cyllid a gwasanaethau busnes (yn cynnwys yswiriant)	34.6	3.4%
Arall	43.5	4.3%
Caffael tir	56.8	5.6%
Adfywio cymunedol	22.7	2.2%
Trafnidiaeth ac yn y blaen	7.6	0.7%
Rhent a threthi	4.3	0.4%
Ynni / dŵr ac yn y blaen	1.9	0.2%
Hyfforddiant	3.7	0.4%
Nwyddau traul	2.1	0.2%
Cyfranogiad/Ymgysylltu tenantiaid	2.1	0.2%
Gwestai ac yn y blaen	0.7	0.1%
Cyfanswm	1,019.5	100.0%

Dangosir yr amcangyfrif o swyddi ychwanegol a gwerth ychwanegol crynswth yn gysylltiedig â gweithgaredd aelodau CHC yn Nhabl 3.

Tabl E3 Amcangyfrif o effeithiau economaidd cymdeithasau tai yng Nghymru ar economi Cymru 2017/18

	Effaith Uniongyrchol: Allbwn a Chyflogaeth Sector Cymdeithasau Tai	Anuniongyrchol (effaith cyflenwyr ac effaith incwm ac ysgogwyd)	Cyfanswm effaith
Allbwn £m	1,212	1,051	2,263
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) £m	359	528	886
Cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	9,138	14,013	23,151

**Defnyddiwyd cyfanswm gwariant cyflogau cymdeithasau tai yng Nghymru i roi amcangyfrif o effaith uniongyrchol GVA. Dylid trin y cyfanswm hwn fel dangosol yn unig.*

***Caiff yr amcangyfrif cyflogaeth uniongyrchol ei gyfrif o weithwyr cyflogedig cymdeithasau tai a staff asiantaeth.*

Cefnogodd cymdeithasau tai yng Nghymru gyfanswm allbwn o £2,263m yn 2017/18, gwerth ychwanegol gros o tua £886m ac amcangyfrif o 23,151 o swyddi FTE yng Nghymru. Am bob un person llawn-amser a gyflogir gan gymdeithas tai, caiff un a hanner o swyddi eu cefnogi mewn rhan arall o'r economi.

Gwariodd aelodau CHC £23m ar adfywio cymunedol yn 2017/18, yn ychwanegol ar wariant ar adeiladu ar dir llwyd a thir glas, hyfforddiant a gwaith atgyweirio/cynnal a chadw - cyfanswm o £442m yn gyffredinol - gweler Tabl E4.


Tabl E4 Amcangyfrif o wariant ar adfywio (ac eithrio costau staff) 2017/18

	2018 £m
Gofal ac iechyd	1.7
Cymorth cyflogaeth a phrentisiaethau	1.2
Cynhwysiant digidol	0.4
Datblygu mentrau cymdeithasol	0.6
Cynhwysiant ariannol	1.8
Prosiectau ynni	6.3
Cartrefi gwag	5.9
Cynorthwyo dioddefwyr	1.2
Arall	3.6
<i>Is-gyfanswm</i>	22.7
Adeiladu tir llwyd	181.8
Adeiladu tir glas yn gysylltiedig ag adfywio	19.7
Hyfforddiant	3.7
Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw	217.4
Cyfanswm	445.3

Mae Ffigur E1 a Thablau E5 ac E6 yn dangos gwahanol fesurau dros gyfnod o 10 mlynedd. Cafodd ffigurau cyn 2018 (2009-2017) eu haddasu fel y cânt eu dangos yng ngwerthoedd 2018. Mae'r prisiau "cyson" hyn yn addas i roi cymhariaeth fwy cywir o werthoedd ariannol, gan yn ymarferol ddileu unrhyw wahaniaethau sy'n llwyr yn ganlyniad chwyddiant.

Dangosir gwerth gwario ar nwyddau a gwasanaethau lleol dros y cyfnod o 10 mlynedd yn Ffigur E1. Mae cymdeithasau tai Cymru wedi gwario tua £4.4bn yn economi Cymru ar anheddau (un ai yn adeiladu cartrefi newydd neu ar waith cynnal a chadw/atgyweirio) dros y cyfnod o 10 mlynedd.

Ffigur E1 Gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru 2009 - 2018 (prisiau cyson punnoedd 2018)



*Sectorau gwerthu eraill yng Nghymru a chyflogau

Ymddengys crynodeb o *gyfanswm* effeithiau gweithgaredd cymdeithasau tai Cymru dros gyfnod o 10 mlynedd diwethaf yn Nhabl E5 a'r effeithiau adfywio yn E6.

Tabl E5 Amcangyfrif o GYFANSWM effaith economaidd (uniongyrchol ac anuniongyrchol) cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Allbwn £m	1,162	1,551	1,719	1,962	2,125	2,064	2,160	2,036	1,992	2,263
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) £m	387	483	540	621	699	697	718	778	739	886
Cyflogaeth: Swyddi cyfwerth ac amser llawn (FTE)	14,762	15,940	17,361	20,508	21,686	21,676	22,635	23,429	22,458	23,151

Tabl E6 Amcangyfrif o wariant adfywio yng Nghymru (ac eithrio costau staff) 2009-2018, £m (prisiau cyson punnoedd 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	Cyfan- swm 10 mlynedd
Adeiladu tir llwyd	114	199	184	205	187	188	203	198	210	182	1,868
Adeiladu tir glas yn gysylltiedig ag adfywio	18	23	21	18	9	8	9	13	12	20	151
Atgyweirio a chynnal a chadw	166	220	267	310	323	310	315	288	233	217	2,650
Cyllidebau Hyfforddiant	2	3	4	6	8	7	7	4	3	4	50
Prosiectau Adfywio Cymunedol a gwariant arall	3	4	6	6	30	30	22	32	21	23	178
Cyfanswm	303	449	483	545	558	544	556	536	478	445	4,898

PRIF ADRODDIAD

1. Effaith Economaidd Cymdeithasau Tai yng Nghymru

1.1 Cefndir

Rhoddir amcangyfrif o effaith economaidd gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru yn 2017/18 yn y bennod hon. Rydym yn diffinio'r termau economaidd a ddefnyddir yn y broses amcangyfrif. Rydym wedyn yn esbonio'r fethodoleg ar gyfer amcangyfrif effaith economaidd gweithgaredd y sector cymdeithasau tai i economi Cymru.

Mae'r canlyniadau a adroddwyd ar gyfer economi Cymru yn cynnwys: gwariant gros yn ôl categori; gwariant gros yng Nghymru yn ôl categori; a sgil effeithiau (lluosydd) gwariant cysylltiedig â chymdeithasau tai yn nhermau cyfanswm gwerthiant, gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth a gefnogir gan wariant cymdeithasau tai yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ac mae'n dilyn amcangyfrifon o effaith economaidd a ddarparwyd gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru (WERU) 2008-2015, a'r amcangyfrif o effaith economaidd a ddarparwyd gan Beaufort/HECL yn 2016 a 2017. Rydym wedi bod yn ofalus iawn i sicrhau parhad gyda gwaith blaenorol ond dylai'r darlennydd fod yn ymwybodol fod posibilrwydd ar gyfer gwahaniaethau methodoleg rhwng yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd yma a'r amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Fel gydag adroddiadau 2015/16 a 2016/2017, ni fu gan yr astudiaeth yma fynediad i'r model Mewnbyn Allbwn a ddefnyddiwyd gan WERU mewn rhifynnau blaenorol o'r gwaith hwn. Mae trafodaeth gyda WERU wedi cadarnhau fod y berthynas rhwng yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a sefydlwyd ym mherthnasoedd 2015 yn parhau'n gyfredol ac felly defnyddir y cyfernodau i ddarparu'r amcangyfrifon o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn deillio o weithgareddau cymdeithasau tai yng Nghymru.

1.2 Ffynonellau effaith economaidd

Caiff allbynnau nifer o sectorau economaidd eu prynu gan gymdeithasau tai. Mae mwyafrif y gwariant ar gyflogau staff, adeiladu tai newydd a chynnal a chadw ac atgyweirio unedau tai presennol. Yn ogystal â hyn, mae pryniadau yn cynnwys eitemau megis gwasanaethau ariannol, offer technoleg gwybodaeth, cyflenwadau ynni a hyfforddi staff.

Dechreuwn ein proses amcangyfrif drwy ddynodi'r gyfran o gyfanswm gwariant cymdeithasau tai ar nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd, ac yna ystyried i ba raddau mae gweddill y cyfanswm gwariant (wedi'i addasu ar gyfer mewnfion) gan gymdeithasau tai yn cefnogi gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth yn economi Cymru.

1.3 Mesurau a mathau o effaith economaidd

Gellir meintioli maint a natur gweithgaredd natur yn gysylltiedig gyda chymdeithasau tai Cymru mewn nifer o ffordd. Caiff y rhain eu hamlygu yn Nhabl 1.1.

Tabl 1.1 Mesurau gweithgaredd economaidd

Mesur	Disgrifiad
Gwariant	Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig gyda chymdeithasau tai
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)	Cyfanswm yr holl refeniw, o werthiannau terfynol a chymorthdaliadau (net), sy'n incwm i sefydliadau/busnesau. Wedyn caiff yr incymau hynny eu defnyddio ar gyfer treuliau (cyflogau), arbedion (unrhyw warged, dibrisiant) a threthi.
Cyflogaeth	Nifer y swyddi a gefnogir yng Nghymru fel canlyniad i wariant cymdeithasau tai. Caiff y rhain eu hadrodd fel swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), mesur sy'n cynnwys trosi unrhyw swyddi rhan-amser i swyddi llawn-amser cyffelyb (e.e. fel arfer mae tua 2 o swyddi rhan-amser yn gyfwerth ag un swydd llawn-amser).

Er mwyn cael asesiad meintiol o brif effeithiau economaidd cymdeithasau tai Cymru, defnyddir model effaith economaidd o economi Cymru. Mae hyn yn rhoi amcangyfrifon yn nhermau:

1. **Gwariant uniongyrchol yng Nghymru, GVA ac effeithiau ar gyflogaeth** - Mae'r mesur yma'n dangos y gwariant gros, gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth a gefnogir yn uniongyrchol drwy wariant cymdeithasau tai yng Nghymru.
2. **Gwariant anuniongyrchol (cyflenwyr) yng Nghymru, GVA ac effeithiau ar gyflogaeth:** Mae'r mesur hwn yn cyfrif am effeithiau cadwyn gyflenwi yng Nghymru yn gysylltiedig gyda'r effeithiau uniongyrchol uchod. Er enghraifft, gan fod cymdeithas tai yn gwario arian ar nwyddau a gwasanaethau o Gymru, mae'n rhaid i gyflenwyr hynny hefyd brynu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru i ateb y gofynion hyn. Felly, caiff gwariant anuniongyrchol, GVA a chyflogaeth eu cefnogi yn economi Cymru.
3. **Gwariant a gymhellir yng Nghymru, GVA ac effeithiau ar gyflogaeth** - Mae hyn yn amcangyfrif o'r effaith yn deillio o wariant ychwanegol cyflogau ar nwyddau a gwasanaethau mewn man eraill yn yr economi.

1.4 Methodoleg effaith economaidd

Mae'r fethodoleg yn dilyn yr hyn a ddefnyddiwyd yn flynyddol ers 2008 yn wreiddiol gan Uned Ymchwil i Economi Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd ac yna gan Beaufort Research/Houston Economic Consulting mewn gwaith tebyg ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru.

Anfonwyd arolwg holiadur at gymdeithasau tai yng Nghymru (gweler Atodiad 1) yn gofyn iddynt amcangyfrif eu gwariant wedi ei ddadansoddi yn ôl y prif categorïau. Ymatebodd cyfanswm o 32 o'r cymdeithasau tai mwyaf. Mae hyn yn cymharu gyda 33 yn 2016/17 a 35 yn 2015/2016, er y dylid nodi yr unodd dwy gymdeithas tai yn 2016/17 - grŵp Seren a Gwalia yn uno i ffurfio Pobl a Tai Cantref yn uno gyda Wales & West, gan olygu y disgwyliid dau ymateb gan y cymdeithasau tai hyn yn hytrach na phedair. Cafodd y data ei gasglu a'i ddefnyddio i gyfrif effeithiau uniongyrchol gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru, gan gyflwyno dadansoddiad cronos o bryniadau gan sectorau eraill yr economi.

Mae cyfanswm rheoli am wariant yn deillio o "Ddatganiadau Ariannol Cymdeithasau Tai Cymru 2017" a gynhyrchwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru. Yma, edrychwyd ar wariant gweithredol (costau staff ac yn y blaen), gwariant adeiladu/uwchraddio (amcangyfrif o'r newid mewn anheddau ar gost flwyddyn ar flwyddyn). Dylid nodi fod safonau adrodd wedi newid ers rhifyn blaenorol y gwaith yma,

sy'n golygu y gellir cael rhai newidiadau blwyddyn-ar-flwyddyn o'r ffordd y caiff ffigurau eu paratoi, yn ogystal ag unrhyw amrywiadau blynyddol.

Cafodd y cyfanswm rheoli ei amcangyfrif ar £1,212m o wariant gros uniongyrchol gan sector cymdeithasau tai Cymru, sy'n gynydd (15%) ar y cyfanswm yn y flwyddyn flaenorol, er fod rhan o'r cynnydd hwn (a amcangyfrifwyd ar 2 bwynt canran) oherwydd y newid mewn safonau cyfrifeg. Gan ddefnyddio'r holiaduron a gwblhawyd i ddyrannu'r cyfanswm hwn yn ôl categori gwariant, mae Tabl 1.2 yn amlinellu amcangyfrif gwariant gros cymdeithasau tai Cymru ar gyfer 2017/18¹. Prif elfennau gwariant uniongyrchol oedd costau llafur uniongyrchol (£366m, neu 30% o'r gwariant), adeiladu (£293m, neu 24% o'r gwariant) a chynnal a chadw, atgyweirio ac uwchraddio (£274m, neu 23% o holl wariant y sector).

Tabl 1.2 Amcangyfrif gwariant gros cymdeithasau tai Cymru yn ôl categori 2017/18

Categori	£m	% o holl wariant cymdeithasau tai Cymru
Costau llafur uniongyrchol (yn cynnwys staff dros dro ac yn y blaen)	366.2	30.2%
Adeiladu	293.3	24.2%
Cynnal a chadw a thrwsio	274.2	22.6%
Gwasanaethau cyllid a busnes (yn cynnwys yswiriant)	99.9	8.2%
Arall	51.1	4.2%
Caffael tir	57.7	4.8%
Adfywio cymunedol	23.2	1.9%
Trafnidiaeth ac yn y blaen	16.9	1.4%
Rhent a threthi	10.1	0.8%
Ynni/dŵr ac yn y blaen	5.7	0.5%
Hyfforddiant	5.4	0.4%
Nwyddau traul	3.7	0.3%
Cyfranogiad/ymgyssylltu tenantiaid	2.3	0.2%
Gwestai ac yn y blaen	2.3	0.2%
Cyfanswm	1,212.0	100%

Mae "arall" yn cynnwys eitemau megis "dibrisiant stoc" a chostau stad/taliadau rheoli" eraill

Yn cael ei gynnwys yn yr amcangyfrif o'r cyfanswm ffigur gwariant gros ar gyfer cymdeithasau tai Cymru o £1,212m mae elfennau o wariant ar nwyddau a gwasanaethau sy'n 'gollwng' tu allan i economi Cymru (h.y. mewnforion o'r tu allan i Gymru). Defnyddiwyd gwybodaeth a gafwyd o'r holiaduron ar wariant yng Nghymru i addasu'r cyfanswm hwn i gyfrif am y gollwng yma.

Caiff y dadansoddiad wedi'i addasu yn ôl categori ei ddangos yn Nhabl 1.3 yn dangos gwariant gros uniongyrchol cymdeithasau tai Cymru yn economi Cymru. Mae gwahanol gyfrannau o wariant yn parhau yng Nghymru rhwng y categorïau gwariant, gyda 90% o'r gwariant adeiladu a 79% o'r gwariant cynnal a chadw ac atgyweirio'n aros yng Nghymru. Drwyddi draw, mae 84% o wariant cymdeithasau tai yng Nghymru, yr un gyfran ag yn 2017. Cafodd elfennau pellach o wariant nad ydynt yn ysgogi effeithiau economaidd cadarnhaol ar economi Cymru hefyd eu dileu - mae'r gollwng yma'n

¹ Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys grwpio peth o'r gwariant 'arall' yn ôl i gategoriâu penodol lle mae'n addas gwneud hynny. Mae hyn yn dilyn y dull gewithredu cyffredinol mewn rhifynnau blaenorol o'r gwaith hwn.

cynnwys gwariant ar eitemau fel colledion rhent / dyledion drwg a dibrisiant stoc yn y categori "Arall".

Tabl 1.3 Amcangyfrif o wariant gros cymdeithasau tai Cymru yng Nghymru yn ôl categori 2017/18

	Gwariant net yng Nghymru £m	% gwariant net yng Nghymru	Categori gariant fel % o holl wariant cymdeithasau tai Cymru
Costau llafur uniongyrchol (yn cynnwys staff dros dro ac yn y blaen)	358.6	97.9%	35.2%
Adeiladu	263.5	89.9%	25.8%
Cynnal a chadw ac atgyweirio	217.4	79.3%	21.3%
Cyllid a gwasanaethau busnes (yn cynnwys yswiriant)	34.6	34.7%	3.4%
Arall	43.5	85.1%	4.3%
Caffael tir	56.8	98.3%	5.6%
Adfywio cymunedol	22.7	97.7%	2.2%
Trafnidiaeth ac yn y blaen	7.6	45.0%	0.7%
Rhent a threthi	4.3	42.7%	0.4%
Ynni / dŵr ac yn y blaen	1.9	32.6%	0.2%
Hyfforddiant	3.7	69.4%	0.4%
Nwyddau traul	2.1	57.5%	0.2%
Cyfranogiad/ymgysylltu tenantiaid	2.1	90.9%	0.2%
Gwestai ac yn y blaen	0.7	28.7%	0.1%
Cyfanswm	1,019.5	84.1%	100.0%

Cynhaliwyd nifer o addasiadau eraill cyn y modelu economaidd i amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru². Mae hyn yn rhoi amcangyfrif ar gyfer gwariant net yng Nghymru.

1.5 Amcangyfrif o effeithiau anuniongyrchol cyflenwyr ac incwm a gymhellir


Mae angen fframwaith modelu economaidd o economi Cymru er mwyn amcangyfrif effeithiau lluos gwariant cymdeithasau tai ar y lefel genedlaethol. Mae rhifynnau blaenorol o'r astudiaeth hon wedi defnyddio Fframwaith Mewnbwn-Allbwn Cymru i amcangyfrif y sgil-effeithiau hyn, a elwir yn effeithiau anuniongyrchol ac incwm a ysgogir. Mae hyn yn seiliedig ar gyfrif ariannol o fasnachu rhwng gwahanol rannau o'r economi dros gyfnod o un flwyddyn. Mae'r tablau'n dangos masnach rhwng diwydiannau o fewn yr economi, masnach allanol drwy fewnforion ac allforion, a gwariant defnyddwyr a llywodraeth. Mae'r fframwaith Mewnbwn-Allbwn wedyn yn ei gwneud yn bosibl olrhain effaith unrhyw wariant neu weithgaredd drwy'r gwahanol gadwyni cyflenwi, gan yn y pen draw amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol ac incwm a ysgogir.

Fel y nodwyd yn gynharach, ni fu gan yr astudiaeth yma fynediad i'r model Mewnbwn Allbwn ac ar ôl trafod gyda'r WERU, mae'r astudiaeth hon yn defnyddio perthynas 2015 rhwng effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i roi amcangyfrif o'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn

² Caiff costau llafur uniongyrchol eu hepgor o'r cyfanswm yn nhabl 1.3 i ddileu gostau cyflogwyr, treth gweithwyr cyflogedig a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

deillio o weithgareddau cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae Ffigur 1.1 yn rhoi crynodeb o'r dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effeithiau economaidd gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru.

Ffigur 1.1 Amcangyfrif o'r effaith economaidd net yng Nghymru



1.6 Effeithiau economaidd anuniongyrchol gweithgaredd cymdeithasau tai yn 2017/18

Amcangyfrifwyd fod effaith anuniongyrchol gwariant cymdeithasau tai Cymru (effeithiau cyflenwr ynghyd ag effeithiau incwm a gymhellir) yn rhoi £1,051m o allbwn ychwanegol yng Nghymru. Amcangyfrifwyd fod gwerth ychwanegol real (ychwanegiadau lleol at gyflogau ac elw) neu Werth Ychwanegol Gros sy'n crynhoi i economi i economi Cymru fel canlyniad i wariant cymdeithasau tai yn £528m.

Er mwyn gwasanaethu'r galw ychwanegol hwn, amcangyfrifwyd fod y gyflogaeth ychwanegol oedd ei hangen yn 14,013 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae hyn yn golygu, am bob person llawn-amser a gyflogir gan gymdeithas tai, y caiff un a hanner o swyddi eraill eu cefnogi mewn rhan arall o'r economi gan weithgaredd cymdeithasau tai.

1.7 Cyfanswm effeithiau economaidd gweithgaredd y sector cymdeithasau tai 2017/18

Mae cyfuno effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgaredd y sector cymdeithasau tai yn rhoi'r cyfanswm effeithiau, fel y dangosir yn Nhabl 1.4. Cefnogodd cymdeithasau tai yng Nghymru amcangyfrif o gyfanswm allbwn o £2,263m yn 2017/18, gwerth ychwanegol gros o tua £886m ac amcangyfrif o 23,151 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru.

Tabl 1.4 Amcangyfrif o effeithiau economaidd cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru 2017/18

	Effaith Uniongyrchol: Allbwn a Chyflogaeth Sector Cymdeithasau Tai	Anuniongyrchol (effaith cyflenwr ac effaith incwm a gymhellir)	Cyfanswm effaith
Allbwn £m	1,212	1,051	2,263
Gwerth ychwanegol gros (GVA) £m	359	528	886
Cyflogaeth Cyfwerth ag amser llawn (FTE)	9,138	14,013	23,151

**I roi amcangyfrif o effaith uniongyrchol gVA, defnyddiwyd y cyfanswm gwariant ar gyflogau yng Nghymru. Dylid trin y cyfanswm hwn fel dangosol yn unig.*

***Caiff yr amcangyfrif o gyflogaeth uniongyrchol ei gyfrif o weithwyr cyflogedig cymdeithasau tai a staff asiantaeth.*

2. Cyfres Amser 10 Mlynedd

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r tueddiadau cyffredinol o'r flwyddyn 2009 i 2018. I sicrhau bod cymhariaeth deg yn y dadansoddiad mae angen addasu ar gyfer newidiadau yn y lefel prisiau dros y cyfnod y rhoddir sylw iddo. Defnyddiwyd *datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Crynswth*³ Trysorfa Ei Mawrhydi i wneud yr addasiadau hyn.

Dros gyfres amser mae prisiau "cyson" yn hytrach na "chyfredol" yn briodol i roi adlewyrchiad mwy cywir o werthoedd ariannol. Mae hyn yn golygu y cafodd ffigurau ar gyfer y flwyddyn 2009 i 2017 eu chwyddo ar i fyny fel y cânt eu mynegi mewn punnoedd 2018, gan yn ymarferol ddileu unrhyw wahaniaethau sy'n llwyr yn ganlyniad chwyddiant⁴.

Dangosir y cafodd yr amcangyfrif cyfanswm gwariant 'uniongyrchol' y sector cymdeithasau tai yng Nghymru yn Nhabl 2.1 ei gynyddu o £569m yn 2009 i £1,212m yn 2018. Mae ffigur 2018 yn gynydd o flynyddoedd blaenorol ac yn uwch na brig 2015. Ffigur y cyfanswm gwariant (neu allbwn) hwn a ddefnyddir fel y bloc adeiladu dechreuol ar gyfer y modelu yn yr astudiaeth hon. Caiff y sector cymdeithasau tai yng Nghymru ei ddiffinio yma fel y sefydliadau a gaiff eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol blynyddol.

Tabl 2.1 Amcangyfrif effaith economaidd uniongyrchol cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Allbwn £m	569	794	898	1040	1,113	1,087	1,156	1,090	1,067	1,212
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) £m	134	163	194	228	273	283	290	315	299	359
Cyflogaeth: Swyddi Cywerth ac Amser Llawn (FTE)	4,163	4,975	5,584	7,615	8,122	8,528	8,934	9,248	8,864	9,138

Mae rhywfaint o'r gwariant a nodir uchod yn 'gollwng' allan o economi Cymru. Felly mae'n bwysig dynodi swm y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru a gaffaelwyd *yng Nghymru* (yn rhoi ysgogiad i'r economi rhanbarthol, ac yna'n cynhyrchu effeithiau cyflenwad a gwariant incwm). Mae Tabl 2.2 yn dangos gwariant yn ôl categori pennawd rhwng 2009 a 2018 ar nwyddau a gwasanaethau Cymru.

Tabl 2.2 Amcangyfrif gwariant gros (£m) cymdeithasau tai Cymru yng Nghymru 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd 2018)


	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Adeiladu	116	202	197	210	171	159	169	253	257	264
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio	149	183	224	253	302	288	283	253	233	217
Arall*	199	238	276	342	433	426	460	439	411	539
Cyfanswm	464	623	697	805	906	874	912	944	901	1,020

* Sectorau gwerthu eraill yng Nghymru a chyflogau

³ <https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-september-2018-quarterly-national-account>

⁴ Noder y bydd y newid mewn safonau cyfrifeg rhwng yr amcangyfrifon ar gyfer 2017 ac ar gyfer 2018 yn cyfrif am rywffaint o'r newidiadau

Figur 2.1 Gwariant aelodau CHC yng Nghymru 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd blwyddyn 2018)



*Sectorau gwerthu eraill yng Nghymru a cyflogau

Mae'r gwariant a ddangosir yn Nhabl 2.2 yn creu effeithiau anuniongyrchol cyflenwyr ac incwm a gymhellir, i ddechrau yn bennaf yn y sector adeiladu, ond wedyn yn llifo ledled yr economi.

Dangosir effeithiau anuniongyrchol gwariant cymdeithasau tai yng Nghymru yn Nhabl 2.3. Mae allbwn anuniongyrchol yn 2018 wedi cynyddu o lefelau 2017.

Tabl 2.3 Amcangyfrif o effaith economaidd anuniongyrchol cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd blwyddyn 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Allbwn £m	595	760	824	926	1,010	976	1,003	946	925	1,051
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) £m	254	322	345	394	426	414	427	463	440	528
Cyflogaeth: Swyddi Cyfwerth ac Amser Llawn (FTE)	10,599	10,965	11,777	12,894	13,564	13,148	13,701	14,181	13,594	14,013

Mae cyfuno'r gwariant uniongyrchol pennawd o Dabl 2.1 (a wariwyd i gyd ar gymunedau yng Nghymru ond nid o reidrwydd wedi eu darparu gan gyflenwyr Cymru) gyda'r effaith economaidd anuniongyrchol o Tabl 2.3 yn rhoi cyfanswm effeithiau economaidd a ddangosir yn Nhabl 2.4.

Tabl 2.4 Amcangyfrif CYFANSWM (uniongyrchol ac anuniongyrchol) effaith economaidd cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru (prisiau cyson blwyddyn 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Allbwn £m	1,162	1,551	1,719	1,962	2,125	2,064	2,160	2,036	1,992	2,263
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) £m	387	483	540	621	699	697	718	778	739	886
Cyflogaeth: Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE)	14,762	15,940	17,361	20,508	21,686	21,676	22,635	23,429	22,458	23,151

Rhoddir amcangyfrifon o wariant adfywio yn ôl cymdeithasau tai yng Nghymru yn Nhabl 2.5.

Tabl 2.5 Amcangyfrif gwariant adfywio (ac eithrio costau staff) 2009-2018 (prisiau cyson punnoedd blwyddyn 2018)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	Cyfanswm 10 mlynedd
Adeiladu tir llwyd	114	199	184	205	187	188	203	198	210	182	1,868
Adeiladu tir glas yn gysylltiedig ag adfywio	18	23	21	18	9	8	9	13	12	20	151
Atgyweirio a chynnal a chadw	166	220	267	310	323	310	315	288	233	217	2,650
Cyllidebau hyfforddiant	2	3	4	6	8	7	7	4	3	4	50
Prosiectau adfywio cymunedol a gwariant arall	3	4	6	6	30	30	22	32	21	23	178
Cyfanswm	303	449	483	545	558	544	556	536	478	445	4,898

Mae tabl 2.6 islaw'n dangos sut y dosbarthwyd gwariant ar brosiectau adfywio cymunedol rhwng gwahanol weithgareddau yn 2017/18.

Tabl 2.6 Amcangyfrif gwariant yng Nghymru ar brosiectau adfywio cymunedol yn ôl math 2018, £m

	2018 £m
Gofal ac iechyd	1.7
Cymorth cyflogaeth a phrentisiaethau	1.2
Cynhwysiant digidol	0.4
Datblygu menter gymdeithasol	0.6
Cynhwysiant ariannol	1.8
Prosiectau ynni	6.3
Cartrefi gwag	5.9
Cynorthwyo dioddefwyr	1.2
Arall	3.6
Cyfanswm	22.7

Gofynnwyd i gymdeithasau tai am nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo mewn prosiectau adfywio cymunedol. Derbyniodd bron 8,300 o bobl ddatblygiad sgiliau drwy gymdeithasau tai a chafodd bron i 1,700 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth eu creu. Mae'r ddau gyfanswm yma yn gynnydd o 2016/17.

Tabl 2.7 Pobl a gefnogwyd mewn prosiectau adfywio cymunedol

	Cyfanswm pobl	% tenantiaid
Cyfanswm nifer y bobl a dderbyniodd gefnogaeth cyflogadwyedd, hyfforddiant a datblygu sgiliau yn 2017/18	8,269	41%
Cyfanswm cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a gafodd eu creu, yn cynnwys swyddi a phrentisiaethau yn 2017/18	1,669	29%

Newidiadau o 2017 i 2018

Dylid nodi rhai newidiadau rhwng 2017 a 2018:

- Roedd y cynnydd cyffredinol yn y newid mewn anheddau (un o ddwy elfen a ddefnyddir fel mesur 'rheoli' ar gyfer cyfanswm gwariant cymdeithasau tai) fel y cofnodwyd yn Natganiadau Ariannol Cymdeithasau Tai Cymru 2017 yn fwy nag yn y rhifynnau blaenorol. Cafodd hyn sgil-ffaith drwy'r astudiaeth hon ac mae'n cynyddu amcangyfrifon yr effaith economaidd o gymharu gyda blynyddoedd blaenorol.
- Ar yr un pryd, mae costau gweithredu (rhan arall 'rheoli' y cyfanswm gwariant gan gymdeithasau tai) a gofnodwyd yn Natganiadau Ariannol Cymdeithasau Tai Cymru 2017 wedi gostwng, er gan lai na'r cynnydd yn y newid yn yr anheddau a nodir uchod. Yr effaith net yw fod cyfanswm lefel y gwariant (ac felly'r effaith economaidd) yn uwch nag yn 2017.
- O gymharu gyda blynyddoedd blaenorol, mae'r gyfradd gollwng allan o'r economi yn 2018 yr un fath ag yn 2017 (cadw 84% yn Nghymru).
- Y tri chategori mwyaf o wariant yw costau llafur, adeiladu a cynnal a chadw. O gymharu gyda 2017, roedd gwariant ar gynnal a chadw yn is ond roedd gwariant ar adeiladu yn uwch - ac roedd y cyfanswm cyfun yn is yn 2018 nag oedd yn 2017. Mae costau llafur wedi cynyddu fel cyfran o wariant cymdeithasau tai a hefyd fel swm absoliwt. Gyda'i gilydd, roedd cyfanswm gwariant ar draws y tri chategori hyn yn uwch nag yn 2017. Cafodd y gwariant uwch ar lafur effaith ar yr amcangyfrifon o GVA a drafodir uchod.
- Roedd y nifer o bobl a fanteisiodd o ddatblygu sgiliau wedi cynyddu yn 2018.

3. Arolygon Cartrefi Ychwanegol

Mae CHC yn casglu gwybodaeth gan ei aelodau bob blwyddyn ar gyfer cartrefi ychwanegol yn defnyddio 3 chategori:

- *Tabl 3.1:* Nifer cartrefi ychwanegol yn ôl math daliadaeth (ar rent a pherchnogaeth cartref cost isel LCHO) ac ardal awdurdod lleol
- *Tabl 3.2:* Nifer cartrefi ychwanegol yn ôl SHG-HFG/dim SHG-HFG ac awdurdod lleol
- *Tabl 3.3:* Nifer cartrefi ychwanegol a gafodd eu hadeiladu, eu hadnewyddu neu eu caffael

Darparwyd 1,876 o gartrefi ychwanegol yn 2017/18. Mae hyn yn ostyngiad ar y ddwy flynedd flaenorol.

Caiff y canlyniadau rhwng 2008/9 a 2017/18 eu crynhoi islaw.

Tabl 3.1 Nifer cartrefi ychwanegol yn ôl daliadaeth.

	Ar rent	LCHO	Cyfanswm
2008/9	1769	373	2142
2009/10	2123	163	2286
2010/11	1743	290	2033
2011/12	1788	185	1973
2012/13	1714	148	1862
2013/14	1657	193	1850
2014/15	1778	145	1923
2015/16	2149	173	2322
2016/17	2337	196	2533
2017/18	1709	167	1876
Cyfanswm	18767	2033	20800

Tabl 3.2 Nifer cartrefi ychwanegol yn ôl SHG-HFG/dim SHG-HFG

	SHG	Dim SHG	Cyfanswm
2008/9	1198	944	2142
2009/10	1740	546	2286
2010/11	1820	213	2033
2011/12	1432	541	1973
2012/13	1103	759	1862
2013/14	1383	467	1850
2014/15	1406	517	1923
2015/16	1771	551	2322
2016/17	1788	745	2533
2017/18	1391	485	1876
Cyfanswm	15032	5768	20800

Tabl 3.3 Nifer cartrefi ychwanegol a gafodd eu hadeiladu, eu hadnewyddu neu eu caffael

	Adeiladu	Adnewyddu	Caffael	Cyfanswm
2008/9	1415	42	685	2142
2009/10	1769	176	341	2286
2010/11	1553	74	406	2033
2011/12	1532	56	385	1973
2012/13	1267	218	377	1862
2013/14	1318	81	451	1850
2014/15	1328	103	492	1923
2015/16	1893	138	291	2322
2016/17	2207	130	196	2533
2017/18	1565	78	233	1876
Cyfanswm	15847	1096	3857	20800

Caiff yr wybodaeth ar gyfer 2017/18 ar gyfer pob un o'r categorïau uchod ei dadansoddi yn ôl ardal awdurdod lleol ei roi yn Atodiadau 2 i 4 yr adroddiad hwn.

Yn ychwanegol, gofynnwyd hefyd i gymdeithasau tai am nifer y cartrefi ychwanegol oedd wedi ei 'cychwyn', a ddiffiniwyd fel pan fo gwaith yn dechrau ar osod y sylfeini yn cynnwys 'slabio' ar gyfer cartrefi sydd angen hynny. Cafodd 1,665 o gartrefi eraill eu 'cychwyn' yn ôl y diffiniad hwn ar draws pob cymdeithas tai a adroddodd ffigurau.

Gofynnwyd hefyd i aelodau CHC roi amcangyfrif o'r cartrefi ychwanegol ar y gweill ar gyfer 2018/19. Disgwylir y bydd cyfanswm o 3,045 o gartrefi ychwanegol ar gael y flwyddyn nesaf. Caiff hwn ei gyflwyno yn ôl ardal awdurdod lleol yn Atodiad 5.

Atodiad 1

Holiadur

Atodiad 2

Cartrefi ychwanegol a ddarparwyd ym mlwyddyn ariannol 2017-2018 yn ôl daliadaeth.

ARDAL AWDURDOD LLEOL	Ar rent	LCHO	Cyfanswm
Ynys Môn	37	8	45
Gwynedd	31	21	52
Conwy	62	22	84
Sir Ddinbych	70	15	85
Sir y Fflint	108	0	108
Wrecsam	18	1	19
Powys	54	12	66
Ceredigion	12	0	12
Sir Benfro	75	5	80
Sir Gaerfyrddin	40	0	40
Abertawe	128	2	130
Castell-nedd Port Talbot	58	0	58
Pen-y-bont ar Ogwr	52	0	52
Bro Morgannwg	151	22	173
Caerdydd	154	0	154
Rhondda Cynon Taf	208	4	212
Merthyr Tudful	32	0	32
Caerffili	44	1	45
Blaenau Gwent	0	0	0
Torfaen	117	15	132
Sir Fynwy	88	14	102
Casnewydd	170	25	195
CYMRU	1709	167	1876

Atodiad 3

Cartrefi ychwanegol a ddarparwyd ym mlwyddyn ariannol 2017-2018 gyda a heb grant

ARDAL AWDURDOD LLEOL	SHG / HFG	Dim SHG/HFG	Cyfanswm
Ynys Môn	21	24	45
Gwynedd	34	18	52
Conwy	66	18	84
Sir Ddinbych	38	47	85
Sir y Fflint	108	0	108
Wrecsam	19	0	19
Powys	58	8	66
Ceredigion	12	0	12
Sir Benfro	75	5	80
Sir Gaerfyrddin	40	0	40
Abertawe	118	12	130
Castell-nedd Port Talbot	24	34	58
Pen-y-bont ar Ogwr	30	22	52
Bro Morgannwg	31	142	173
Caerdydd	154	0	154
Rhondda Cynon Taf	208	4	212
Merthyr Tudful	32	0	32
Caerffili	44	1	45
Blaenau Gwent	0	0	0
Torfaen	64	68	132
Sir Fynwy	64	38	102
Casnewydd	151	44	195
CYMRU	1391	485	1876

Atodiad 4

Cartrefi ychwanegol a ddarparwyd ym mlwyddyn ariannol 2017-20 a gafodd eu hadeiladu, eu hadnewyddu neu eu caffael.

ARDAL AWDURDOD LLEOL	Adeiladu	Adnewyddu	Caffael	Cyfanswm
Ynys Môn	37	0	8	45
Gwynedd	42	0	10	52
Conwy	40	18	26	84
Sir Ddinbych	33	3	49	85
Sir y Fflint	106	2	0	108
Wrecsam	14	5	0	19
Powys	62	3	1	66
Ceredigion	2	0	10	12
Sir Benfro	53	0	27	80
Sir Gaerfyrddin	32	0	8	40
Abertawe	112	6	12	130
Castell-nedd Port Talbot	29	3	26	58
Pen-y-bont ar Ogwr	52	0	0	52
Bro Morgannwg	144	0	29	173
Caerdydd	147	7	0	154
Rhondda Cynon Taf	197	15	0	212
Merthyr Tudful	23	9	0	32
Caerffili	44	1	0	45
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Torfaen	126	0	6	132
Sir Fynwy	90	0	12	102
Casnewydd	180	6	9	195
CYMRU	1565	78	233	1876

Atodiad 5

Cartrefi ychwanegol ar y gweill i fod ar gael ym mlwyddyn ariannol 2018-2019

ARDAL AWDURDOD LLEOL	Cyfanswm
Ynys Môn	97
Gwynedd	134
Conwy	63
Sir Ddinbych	32
Sir y Fflint	126
Wrecsam	162
Powys	90
Ceredigion	70
Sir Benfro	122
Sir Gaerfyrddin	29
Abertawe	251
Castell-nedd Port Talbot	195
Pen-y-bont ar Ogwr	153
Bro Morgannwg	120
Caerdydd	331
Rhondda Cynon Taf	214
Merthyr Tudful	17
Caerffili	112
Blaenau Gwent	14
Torfaen	307
Sir Fynwy	171
Casnewydd	235
CYMRU	3045

Atodiad 6

Amcangyfrif o incwm Llywodraeth Cymru o gymharu ag incwm arall

Dengys y rhai a ymatebodd i'r arolwg fod o gyfanswm incwm y sector o tua £1.2bn, mae cymdeithasau tai yn derbyn tua £122m gan Lywodraeth Cymru fel grant tai cymdeithasol. Yn ychwanegol, mae cymdeithasau tai yn derbyn tua £60m mewn grantiau eraill, gyda 92% yn dod gan Lywodraeth Cymru a 8% o ffynonellau eraill. Daw gweddill incwm cymdeithasau tai o ffynonellau megis ffynonellau fel renti, gwerthiant, benthyca yn ogystal â gweithgareddau eraill fel taliadau gwasanaeth ac yn y blaen. Gellir mynegi'r berthynas rhwng yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o gymharu â ffynonellau eraill fel bod cymdeithasau tai yn dod â £5.69 am bob £1 a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.